

# CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

## 2022/23 - 2024/25

### 1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn ganllaw strategol i gynlluniau gwariant y Cyngor dros y tair blynedd nesaf er mwyn cefnogi blaenoriaethau'r Cyngor o fewn cyd-destun cyllideb flynyddol gytbwys; mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig presennol ar gyfer blynyddoedd 2022/23 i 2024/25.
- 1.2 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn rhagdybio sefyllfa ariannol y Cyngor yn y dyfodol yn seiliedig ar nifer o dybiaethau, gan nodi cyllidebau referniw a chyfalaf dangosol ac yn rhagamcanu lefel debygol Treth y Cyngor a balansau'r Cyngor.
- 1.3 Mae'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu'n cael eu hariannu gan grantiau Llywodraeth Cymru yn bennaf, gyda chyllid ychwanegol yn cael ei gasglu'n lleol o Dreth y Cyngor a drwy godi tâl am wasanaethau. Dros y deng mlynedd ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi wynebu toriadau yn y gyllideb ar raddfa nas profwyd erioed o'r blaen ac mae'r Cyngor yn parhau i wneud penderfyniadau anodd ynglŷn â'r ffordd orau i gynllunio a darparu gwasanaethau.
- 1.4 Mae adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn parhau'n hanfodol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol tymor canolig y Cyngor. Er mwyn ceisio osgoi toriadau i wasanaethau, mae'r Cyngor yn parhau i ystyried opsiynau amgen i ddarparu gwasanaeth a chyllid i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau'n addas at eu diben yng nghyd-destun cyllidebau gwirioneddol. Mae'n gyfle hefyd i weithio gyda phartneriaid lle bo'n briodol i gynnal a gwella canlyniadau wrth i alw a chostau gynyddu'n gynt na chyllid.

### 2. Egwyddorion sy'n arwain ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig

- 2.1. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn nodi materion cyffredinol a fydd yn effeithio ar sefyllfa ariannol y Cyngor yn 2022/23 a thros y tymor canolig. Mae'n amlygu'r paramedrau ariannol ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf ac yn ystyried y canlynol:
  - Cynllun y Cyngor
  - Y Cyd-destun Ariannol Mewnol
  - Ffactorau Economaidd Allanol
  - Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf
- 2.2 Os yw'r Cyngor yn mynd i gadw at ei flaenoriaethau a sicrhau sefydlogrwydd ariannol yn ystod y tymor canolig, bydd yn rhaid iddo barhau i wneud arbedion a chynhyrchu incwm ychwanegol.

### 3. Cynllun y Cyngor

3.1 Cynllun y Cyngor yw'r cynllun hollgynhwysol sy'n helpu'r Cyngor i dargedu ei adnoddau a gyrru gwelliant. Mae'n nodi sut y byddwn yn canolbwyntio ein hegri a'n hadnoddau sy'n prinhau a sut y byddwn yn mesur ein perfformiad. Cafodd Cynllun y Cyngor 2020/23 ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 16 Rhagfyr 2020 ac mae'n cynnwys chwe blaenoriaeth:

- Datblygu'r Economi
- Sicrhau Bod Pawb yn Ddiogel
- Sicrhau Cyngor Modern a Chryf
- Gwella'r Amgylchedd
- Gwella Addysg Uwchradd
- Hybu Iechyd a Lles Da (gyda ffocws ar wella Gwasanaethau Plant)

3.2 Roedd y rhain wedi eu cyflwyno i ddechrau fel blaenoriaethau 'o fewn blwyddyn' yng Nghynllun y Cyngor 2019-22 a datblygwyd drwy gydol 2019 - 2020 i'r blaenoriaethau newydd ar gyfer y Cynllun ar gyfer y cyfnod 2020-23.

3.3 Mae Chwe Bwrdd Blaenoriaeth yn gyfrifol am gyflawni'r blaenoriaethau ac adrodd ar gynnydd yn erbyn cerrig milltir, mesurau a thargedau y cytunir arnynt yn y Cynllun. Yn unol â'r fframwaith rheoli perfformiad, mae Byrddau Blaenoriaeth yn adrodd i'r Bwrdd Gweithredol yn chwarteri 2 a 4 a thrwy adroddiad perfformiad blynyddol y Cyngor ym mis Hydref bob blwyddyn.


#### 4. Y Cyd-destun Ariannol Mewnol

4.1 Yn 2021/22 cyllideb referniw net y Cyngor i'w gyflawni gan drethdalwyr y Cyngor oedd £70.64 miliwn (net grantiau llywodraeth, rhenti, llog, a ffioedd a chostau).

4.2 Cyfrifiad sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 2021/22 oedd 53,553 o eiddo Band D. Mae'r sylfaen drethu gyffredinol yn seiliedig ar yr un cyfrifiadau ar gyfer pob un o'r 34 ardal gymunedol. I gyfrifo sylfaen drethu ardal, mae nifer yr anheddau ymhob band treth y cyngor yn cael ei addasu i ystyried unrhyw ostyngiad, premiwm neu eithriadau. Gwariant gros y Cyngor wedi'i gyllidebu yn 2021/22 yw £414.98 miliwn. Cefnogir y gwariant hwn gan renti, ffioedd a chostau, yn ogystal â grant fformiwla llywodraeth a threthdalwyr y cyngor, fel y nodir yn y siart isod:

	Cyfanswm	Canran
Treth y Cyngor	£70.64 m	17%
Rhent Tai	£55.40m	13%
Cyllid Llywodraeth Cymru	£188.86m	46%
Ffioedd, Costau a Grantiau	£100.08m	24%
Total	£414.98m	100%

## CYLLID 2021/22



### 5. Ffactorau Allanol

- 5.1 Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor wedi'i osod yng nghyd-destun effaith yr economi cenedlaethol, twf poblogaeth a thueddiadau demograffig a all achosi cynnydd mewn galw neu wariant mewn maes penodol fel addysg, tai, gofal cymdeithasol a gwaredu gwastraff.

#### Chwyddiant

- 5.2 Mae chwyddiant yn elfen bwysig wrth lunio Cynllun Ariannol Tymor Canolig; mae prisiau nwyddau a gwasanaethau yn dueddol o gynyddu yn unol â chyfradd chwyddiant fel y mesurir yn bennaf gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI).
- 5.3 Cynyddodd chwyddiant CPI deuddeg mis o 3.1% ym mis Medi i 5.1% ym mis Tachwedd. Disgwylir y bydd chwyddiant yn aros o gwmpas 5% drwy ran helaeth o gyfnod y gaeaf, a dod i uchafbwynt o tua 6% ym mis Ebrill 2022. Mae dangosyddion pwysau costau a phrisiau wedi parhau i fod ar lefelau hanesyddol uchel yn ddiweddar, a disgwylir y bydd cynnydd pellach i brisiau'r flwyddyn nesaf, a fydd yn cael ei lywio'n bennaf gan gyflogau a chostau ynni. Mae disgwyl y bydd chwyddiant CPI yn gostwng yn ail hanner blwyddyn nesaf.
- 5.4 Polisi presennol y Cyngor yw cynyddu ffioedd fel eu bod o leiaf yn unol â chwyddiant, os nad uwch, er mwyn i ni allu cynyddu cyfran gwasanaeth sy'n cael ei ariannu gan y defnyddwyr yn hytrach na thrwy dreth y cyngor neu renti tai. Yn unol â Pholisi Adfer Cost y Cyngor, anogir swyddogion, os oes modd, i godi tâl sy'n cwrdd â chost economaidd llawn darparu'r gwasanaeth. Wrth bennu cyllidebau, disgwylir i swyddogion gynhyrchu cymaint o incwm â phosibl os oes gallu yn y farchnad ac, ar yr un pryd, mae'n rhaid iddynt ystyried y ffioedd a godir gan ein cystadleuwyr.

- 5.5 Yn sgil goblygiadau parhaus pandemig Covid-19, mae'n bosib y byddai cymhwysiad llym y polisi hwn yn cael ei ohirio mewn rhai meysydd gwasanaeth ar gyfer rhan o 2022/23.


### **Cyfraddau Llog**

- 5.6 Ar 16 Rhagfyr, cyhoeddodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr ei fod wedi cynyddu cyfraddau llog o 0.1% i 0.25% ac wedi cadw cyfanswm ei raglen prynu bondiau (a elwir yn esmwytho meintiol) heb ei newid ar £895 biliwn. Bydd y Pwyllgor Polisi Ariannol yn adolygu datblygiadau gan gynnwys tystiolaeth newydd o oblygiadau'r amrywiolyn Omicron ar yr economi, gan fod rhan o'i ragdybiaethau i ddod cyn Adroddiad Polisi Ariannol mis Chwefror 2022.

### **Poblogaeth**

- 5.7 Mae amcanestyniadau poblogaeth yn cael eu defnyddio i helpu awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer y dyfodol (er enghraifft ar gyfer cynllunio tai, ysgolion, meithrinfeydd a gwasanaethau cymdeithasol) a defnyddir i helpu i ddsbarthu cyllid y llywodraeth. Nid ydynt yn cymryd i ystyriaeth unrhyw ddatblygiadau gwleidyddol neu economaidd yn y dyfodol. Mae'r rhagamcanion yn edrych ar beth sydd wedi bod yn digwydd i'r boblogaeth mewn blynyddoedd diweddar a'i ymestyn i'r dyfodol. Mae demograffeg y Fwrdeistref Sirol yn effeithio'n uniongyrchol ar y nifer o wasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys niferoedd disgyblion, proffil oed poblogaeth a nifer o eiddo; tra hefyd yn effeithio ar y cyllid mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru.
- 5.8 Mae'r set data poblogaeth a ddefnyddir ar gyfer Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol yn seiliedig ar ragamcanion llywodraeth leol o 2018 ar gyfer 2022.
- 5.9 Cafodd amcanestyniadau cenedlaethol o 2018 eu cyhoeddi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar 11 Mehefin 2020 ac yn seiliedig ar yr amcanestyniadau canol blwyddyn ar gyfer 2018. Yn ystod y cyfnod 2020 i 2030, amcangyfrifir y bydd poblogaeth Wrecsam yn lleihau o 1.57%, lle disgwylir y bydd poblogaeth Gogledd Cymru'n cynyddu o 1.16%, a Chymru gyfan i gynyddu o 2.36%. Bydd y safle hwn, yn berthnasol ag awdurdodau eraill, yn effeithio ar y fformiwla dosbarthu a ddefnyddir o fewn y setliad, felly mae hyn yn risg wrth symud ymlaen. Serch hynny, mae ffactorau ystadegol eraill hefyd yn nodi cyfrifiadau, megis data budd-daliadau a phroffiliau gwario cyfredol.

**Siart 1 - % newid cronrus mewn rhagamcanion cyfanswm poblogaeth rhwng 2020 a 2030**



Ffynhonnell Data: Stats Cymru

5.10 Mae'r tabl isod yn dangos y newid yn y data poblogaeth a ddefnyddir yn Setliadau Refeniw Llywodraeth Leol 2022/23 a 2021/22.

	<b>Canol Blwyddyn 2018 Amcangyfrif</b>	<b>Setliad 2021/22 (Amcangyfrif Canol Blwyddyn 2018) (fesul cam) #</b>	<b>Setliad 2022/23 (Rhagamcanion Poblogaeth 2021 yn seiliedig ar 2018) #</b>	<b>Newid</b>	<b>%</b>
Wrecsam	136,126	136,642	136,535	-107	-0.1
Cymru Gyfan	3,138,631	3,163,125	3,171,125	8,000	0.3

# Data wedi'i addasu i adlewyrchu poblogaeth wirioneddol yng ngharchar EM y Berwyn

## Gofal Cymdeithasol i Blant

- 5.11 Mae pwysau parhaus ar gyllidebau preswyl arbenigol plant a maethu, yn ogystal ag o fewn cyllidebau ar gyfer costau addysg arbenigol cysylltiedig, ynghyd â chynnydd mewn costau asiantaeth. Nid yw'r twf i leoliadau arbenigol y mae'r cyngor yn eu trefnu yn safle unigryw, ac mae nifer o gynghorau ledled y wlad yn wynebu pwysau. Mae'n rhan o ganlyniadau effaith Covid-19.
- 5.12 Mae'r tabl isod yn amlygu'r cynnydd yn y niferoedd y lleoliadau maethu a phreswyl dros gyfnod o 12 mis, ac mae'r niferoedd yn parhau i gynyddu. Mae'r tabl yn dangos, rhwng Ch2 2020/21 a Ch2 2021/22 bu cynnydd o 30% mewn lleoliadau dros y cyfnod, gan nodi bod cynnydd o 65% wedi digwydd yn ystod y flwyddyn flaenorol.

	Ch2 2020/21	Ch3 2020/21	Ch4 2020/21	Ch1 2021/22	Ch2 2021/22
Maethu	90	94	106	108	118
Preswyl	26	23	27	30	33
Cyfanswm	117	117	133	138	151

## Diweithdra

- 5.13 Bob mis mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyhoeddi amcangyfrif o gyfraddau cyflogaeth a diweithdra. Mae'r amcangyfrif yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd gan Arolwg o'r Llafurlu. Disgynnodd cyfradd diweithdra'r Arolwg i 4.2% yn y tri mis hyd at fis Medi, tra bo nifer y gweithwyr ar y gyflogres wedi parhau i gynyddu'n gryf ym mis Tachwedd.
- 5.14 Mae arwyddion bach yn y data sydd ar gael bod dod â Chynllun Cadw Swyddi'r Coronafeirws i ben ar ddiwedd mis Medi wedi arwain at wanhau'r farchnad lafur. Disgwylir i gyfradd diweithdra'r Arolwg nawr ddisgyn i oddeutu 4% yn Ch4 2021, o'i gymharu ag amcanestyniad 4.5% yn Adroddiad mis Tachwedd.
- 5.15 Ar gyfer mis Gorffennaf i fis Medi 2021, roedd y gyfradd diweithdra ar gyfer pobl 16+ yng Nghymru yn 3.8%, ychydig yn is na 4.1% yn y chwarter blaenorol (mis Ebrill 2021 i fis Mehefin 2021). Dyma ostyngiad o 4,000 o bobl o'r chwarter blaenorol i 58,000. Mae'r gyfradd diweithdra yng Nghymru (3.8%) yn is na Lloegr (4.3%), yr Alban (4.1%) a Gogledd Iwerddon (4.0%).

## 6. Adolygiad o Wariant 2021

- 6.1 Ar 27 Hydref 2020 roedd y Canghellor wedi cyhoeddi ei adolygiad o wariant mewn datganiad yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae'r Canghellor wedi dibynnu ar ragamcanion newydd swyddogol, sy'n dangos bod economi'r DU wedi tyfu'n gynt na'r disgwyl eleni, a bydd "creithiau" tymor hir yr economi yn sgil y pandemig yn llai difrifol na beth yr ofnwyd, gan roi lle hollbwysig iddo i symud. Mae'r rhagamcanion diweddaraf yn caniatáu i'r Canghellor, yn ei drydedd Gyllideb, gyhoeddi buddsoddiad mewn blaenoriaethau, gan gynnwys y GIG, cludiant lleol a chefnogi'r meysydd sydd wedi'u "gadael ar ôl", gan helpu teuluoedd hefyd sy'n wynebu gaeaf o filiau a chostau ynni cynyddol.
- 6.2 Dywedodd y Canghellor ei fod wedi gwneud pedwar dyfarniad yn ei ddull o osod y Gyllideb:
- Bodloni rheolau cyllidol "gyda lle i ddiogelu ein hunain yn erbyn risgiau economaidd."
  - Parhau i gefnogi teuluoedd sy'n gweithio.
  - Adfer gwariant cymorth i 0.7% o incwm cenedlaethol pan mae profion economaidd yn cael eu bodloni (ac mae disgwyl i hyn ddigwydd cyn diwedd y senedd hon erbyn hyn).
  - Cynyddu gwariant adrannol o £150 biliwn (£90 biliwn mewn termau real fesul blwyddyn).
- 6.3 Mae pwyntiau allweddol eraill yn cynnwys:
- Mae'r Adolygiad o Wariant yn gosod cyllidebau adrannol hyd at 2024/25 (gan gynnwys y gwledydd datganoledig)
  - Mae'n amlinellu cynnydd mewn termau real o 3.8% y flwyddyn o ran gwariant cyhoeddus
  - Y cynnydd mwyaf mewn gwariant cyhoeddus y ganrif hon
  - Cynlluniau i ddarparu £600 biliwn o fuddsoddiad gros yn y sector cyhoeddus dros gyfnos y Senedd
- 6.4 Roedd Ymrwymadau Gwario yn cynnwys y canlynol, gydag effeithiau canlyniadol ar gyfer Cymru
- £7 biliwn ar gyfer ymrwymadau trafndiaeth
  - Trawsnewid Digidol o fewn y GIG (Lloegr), £11 biliwn
  - Ysgolion, £4.7 biliwn (+£3.1 biliwn o Gyllid Adfer)
  - 'Chwyldro Sgiliau', £3 biliwn
  - Gwariant ar iechyd i gynyddu o £44 biliwn
  - 'Setliad' Tai, £24 biliwn
  - Cladin, £5 biliwn

### Rhagamcanion Twf y DU a Diweithdra

- 6.5 Gyda'r economi'n adfer yn gynt na disgwyliadau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn gynharach eleni, mae'n golygu y dylai'r economi gyrraedd lefel cyn yr argyfwng ar droad y flwyddyn - yn gynt na'r rhagamcanion:

- 2021: Twf o 6.5% eleni, o 4% a ragamcanwyd yn nhrosolwg Economaidd a Chyllidol mis Mawrth
- 2022: Twf o 6%, i lawr o 7.3% a ragamcanwyd ym mis Mawrth
- 2023: Twf o 2.1%, i fyny o 1.7% a ragamcanwyd ym mis Mawrth
- 2024: Twf o 1.3%, i lawr o 1.6% a ragamcanwyd ym mis Mawrth
- 2025: Twf o 1.6%, i lawr o 1.7% a ragamcanwyd ym mis Mawrth

6.6 Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn disgwyl i ddiweithdra fod ar uchafbwynt o 5.2%

### **Tâl Sector Cyhoeddus**

6.7 Dywedodd y Canghellor y bydd rhewi cyflogau sector cyhoeddus o 12 mis yn dod i ben.

### **Cyflog Byw Cenedlaethol/Cyflog Byw Gwirioneddol**

6.8 Bydd y Cyflog Byw Cenedlaethol yn cynyddu o £8.91 i £9.50 yr awr, a bydd y Cyflog Byw Gwirioneddol yn cynyddu i £9.90 yr awr.

### **Yr Effaith ar Gymru**

6.9 Mae effeithiau canlyniadol cyhoeddiadau polisi CLDU sydd wedi cael eu hamlygu uchod yn cyfrannu at effeithiau posib cyllideb Llywodraeth Cymru:

- Setliad cyllid tair blynedd
- Grant bloc £2.5 biliwn o'i gymharu â 2021
- Cynnydd mwyaf mewn termau real ers 1998
- Cynnydd fesul blwyddyn o £2.9 biliwn erbyn 2024/25
- Y gyllideb Gymreig yn 2022/23 yw £19.2 biliwn, o'i gymharu â £17 biliwn yn 2021/22 (cynnydd o 11.7%)
- Mae'r gyllideb Gymreig yn cynyddu i £20.1 biliwn erbyn 2024/25

6.10 Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn cyfateb i £2.5 biliwn y flwyddyn ar gyfer Cymru, ac yn darparu'r cynnydd mwyaf ar gyfer gweinyddiaeth ddatganoledig yn nhermau real, ers 1998.

## **7. Her Ariannol Hanesyddol**

7.1 Dros y deng mlynedd ddiwethaf pontiwyd bwlch cyllid y Cyngor (y gwahaniaeth rhwng gwariant a chyllid net) trwy wneud yr arbedion/toriadau i'r gyllideb ganlynol i tua £49 miliwn (ers 2010/11, sy'n dod i £59 miliwn).



	2012/13 £'000	2013/14 £'000	2014/15 £'000	2015/16 £'000	2016/17 £'000	2017/18 £'000	2018/19 £'000	2019/20 £'000	2020/21 £'000	2021/22 £'000
<b>Gwariant Net</b>	215,434	233,334	238,111	232,240	229,073	229,461	237,659	242,659	251,881	260,182
<b>Cyllid</b>	211,890	230,048	227,333	223,120	224,069	225,324	232,872	236,853	250,245	259,492
<b>Toriadau i'r Gyllideb</b>	-3,544	-3,286	-10,778	-9,120	-5,004	-4,137	-4,787	-5,806	-1,636	-690
<b>Toriadau Cronnus i'r Gyllideb</b>	-3,544	-6,830	-17,608	-26,728	-31,732	-35,869	-40,656	-46,462	-48,098	-48,788

## 8. Yr Her Ariannol Tymor Canolig

- 8.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i baratoi gan ddwyn ymlaen y Gyllideb Arian Gyfyngedig bresennol, gan ddefnyddio model ariannol manwl gydag addasiad ar gyfer chwyddiant, ac effaith lawn penderfyniadau a newidiadau gweithredol sy'n hysbys. Mae'r rhagolwg hwn yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf oedd ar gael adeg y drafftio, ond mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn gymhleth a dynamig ac yn destun newid.
- 8.2 Amlygodd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 24 Chwefror 2021 fwlch yn y gyllideb o oddeutu £4.2 miliwn ar gyfer y cyfnod 2022/24. Serch hynny, cyn cyhoeddiad setliad dros dro ym mis Rhagfyr 2021, cynyddodd y bwlc hwn i dros £15 miliwn, wrth i bwysau a chostau gynyddu'n sylweddol.
- 8.3 Cafodd darpar setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol ei gyhoeddi ar 21 Rhagfyr 2021 ac roedd yn nodi cynnydd mewn cefnogaeth grant (ar ôl cymryd i ystyriaeth trosglwyddiadau grant i'r setliad) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23 o 9.4% ar gyfer y Cyngor o'i gymharu â chynnydd cyfartalog o 9.4% ar sail Cymru gyfan. Cyhoeddwyd ffigurau mynegol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2023/24 a 2024/25 fel 3.5% a 2.4% yn ôl eu trefn. Bydd y setliad terfynol yn cael ei gyhoeddi ar 1 Mawrth 2022.
- 8.4 Am y tro cyntaf mewn mwy na degawd, mae setliad mynegol sawl blwyddyn wedi cael ei ddarparu. Mae'r newid hwn yn cael ei groesawu, ac yn caniatáu ar gyfer dull mwy strategol o weithio tuag at gynllunio ariannol dros gyfnod hirach, na beth sydd wedi'i weld dros flynyddoedd diweddar. Mae'r setliad o 9.4% yn 2022/23 yn cael ei groesawu, er ei fod yn dod gydag ymrwymïadau gwario ychwanegol. Serch hynny, o edrych ar hyn ar y cyd gyda rhagamcanion cynyddu Treth y Cyngor ar 4% Cynllunio Ariannol Tymor Canolig, mae'n caniatáu ar gyfer llwyfan mwy sefydlog ym mlwyddyn gyntaf cyfnod setliad o dair blynedd, i ganiatáu ar gyfer mynd i'r afael â phwysau a heriau sy'n amlygu yn yr ail a'r drydedd flwyddyn. Bydd pwysau o ran galw, costau a chwyddiant tâl yn parhau i fynd tu hwnt i lefelau setliadau yn y dyfodol ac felly bydd heriau yn 2023/24 a 2024/25, wedi'u hamcangyfrif i fod yn £3.5 miliwn ar y cam hwn.
- 8.5 Fel yn y blynyddoedd blaenorol, dim ond rhan o'r ffactorau ariannol sydd angen ei ymgorffori yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yw'r newid yng

nghyllid y llywodraeth. Mae'r rhagamcanion ariannol sydd wedi'u cynnwys yn cael eu dangos yn y tabl isod:

	2022/23	2023/24	2024/25
Grant Cynnal Refeniw	9.4%	3.5%	2.4%
Cynnydd i Dreth y Cyngor	4.0%	5.5%	5.5%
Chwyddiant:			
Cyflog Athrawon	4.0%	2.5%	2.5%
Tâl staff nad ydynt yn athrawon	4.0%	2.5%	2.5%
Cynnydd i Yswiriant Gwladol	1.25%	-	-
Cynllun Ariannu Preifat	3.0%	3.0%	3.0%
Darparwyr Gofal Cymdeithasol	4.8%	3.0%	3.0%
Ynni	15.5%	7.5%	7.5%
Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor	4.0%	5.5%	5.5%
Cyffredinol	2.0%	2.0%	2.0%

- 8.6 Mae'r Cyngor yn agored i effaith pwysau chwyddiant cyffredinol arall hefyd o fewn y sector preifat, wedi'i basio ymlaen gan gontractwyr allanol. O ganlyniad, mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn rhagdybio cynnydd cyffredinol o 2% dros gyfnod 2023/25 yn unol â thargedau'r Llywodraeth a chwyddiant penodol ar draws y meysydd uchod, gan nodi'r darpariaethau chwyddiant penodol a adroddwyd mewn paragraffau blaenorol sy'n effeithio ar 2022/23.

### **Ardollau**

- 8.7 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn rhagdybio y bydd Ardoll y Gwasanaeth Tân ar gyfer blynyddoedd y dyfodol yr un fath â ffigurau setliad mynegol LIC.
- 8.8 Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru nawr wedi'i sefydlu'n ffurfiol. Bydd y Cyd-bwyllgor yn cytuno ar y gyllideb yn flynyddol ac yn dyrannu cyfraniadau ar draws awdurdodau lleol ar ffurf ardoll. Mae ardoll ar gyfer 2022/23 wedi cael ei gyfrifo, a chyfanswm cyfraniad y Cyngor yw £70,000. Serch hynny, bydd hyn yn cael ei ariannu gan gyfraniadau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sydd eisoes yn bodoli, ac felly nid yw'n bwysau costau ychwanegol yn 2022/23. Bydd cyllideb y Cyd-bwyllgor yn cael ei adolygu, ac yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol yn flynyddol.

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2022/23 - 2024/25

	2021/22 £'000	2022/23 £'000	2023/24 £'000	2024/25 £'000
Incwm Treth y Cyngor	70,635	73,615	77,663	81,935
Grant Cefnogaeth Refeniw (GCR)	189,069 *	207,060	214,307	219,450
<b>Cyfanswm Cyllid</b>	<b>259,704</b>	<b>280,674</b>	<b>291,970</b>	<b>301,385</b>
<b>1 (Cynnydd) / Gostyngiad mewn cyllid</b>		<b>(20,970)</b>	<b>(11,296)</b>	<b>(9,415)</b>
<b>2 Chwyddiant</b>		<b>11,373</b>	<b>8,360</b>	<b>8,605</b>
<b>Ymrwymadau:</b>				
Demograffeg		0	500	500
Cyllid Cyfalaf		50	200	200
Ardoll y Gwasanaeth Tân		400	267	189
Gofal Cymdeithasol		5,000	1,500	1,000
Gweithlu'r Gofal Cymdeithasol		1,000	0	0
Prydau Ysgol am Ddim - cynnydd i nifer y dysgwyr		250	0	0
Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor - cynnydd i lwyth achosion		150	150	150
Lwfansau Aelodau		217	14	14
Crwneriaid - cynnydd i ffioedd		30	50	50
Pwysau Caledi Etifeddiaeth Covid		463	0	0
Pwysau ar Wasanaethau Eraill		937	300	300
Pensiynau staff ysgolion nad ydynt yn dysgu		0	1300	0
Ymrwymiad CBG/Adolygiad Tâl		1400	600	0
<b>3 Cyfanswm Ymrwymadau</b>		<b>9,897</b>	<b>4,881</b>	<b>2,403</b>
<b>4 Pwysau Cyllideb Net (1+2+3)</b>		<b>300</b>	<b>1,945</b>	<b>1,593</b>
<b>5 Tynnu: Effeithlonrwydd Cyllideb</b>		<b>(300)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
<b>6 Diffyg i'r Gyllideb ar ôl toriadau a nodwyd (4+5)</b>		<b>0</b>	<b>1,945</b>	<b>1,593</b>
* Wedi'i addasu ar gyfer grantiau sy'n cael eu trosglwyddo i GCR yn 2021/22				

### 9. Cwrdd â'r Her Ariannol

9.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod ei fod angen gweledigaeth glir am ei rôl, beth mae'n gallu ei gyflawni gydag adnoddau cyfyngedig, sut mae'n cydweithio gydag eraill, a sut i ddefnyddio'r cynllun ariannol tymor canolig 2022/25, er mwyn parhau i gyflawni darpariaeth gwasanaeth cadarn a rheolaeth ariannol. Hyd yn oed gyda'r rhain ar waith, bydd angen gwneud penderfyniadau anodd dros y cyfnod er mwyn parhau i fod yn gadarn yn ariannol.

9.2 Mae gwaith ar y cynllun ariannol tymor Canolig angen dull cytbwys er mwyn gallu darparu gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor, gan sicrhau bod gwasanaethau allweddol yn parhau i fod yn gynaliadwy a gallu cydbwysu'r gyllideb. Mae dull cytbwys angen ystyried y ffactorau canlynol:

- a) **Hyrwyddo mwy o adnoddau gan lywodraethau cenedlaethol:** fel lleiafswm mae ond yn deg bod codiad cyflog a phwysau ychwanegol a grëwyd gan ddeddfwriaeth genedlaethol newydd yn cael eu hariannu'n llawn.
- b) **Ystyried yn ofalus gynnydd yn Nhreth y Cyngor:** Mae cyfradd Treth y Cyngor Band D yn Wreccsam yn is na chyfartaledd Cymru. Mae'r Cyngor yn cydnabod effaith cynnydd yn Nhreth y Cyngor ar bobl leol a bydd angen cydbwysu hyn gyda'r effeithiau posibl ar wasanaethau os na wneir codiadau. Bydd cynnydd i lefelau is Treth y Cyngor yn golygu bydd y Cyngor yn parhau i wario llai ar breswylwyr bob pen o'r boblogaeth, ac ni fydd yn cyflawni lefel o wariant ar bobl leol a chymunedau sy'n agos at lefel Asesiad o Wariant Safonol yn y fformiwla cyllid cenedlaethol.
- c) **Atal/torri gwasanaethau a lleihau lefelau gwasanaeth:** Yn y meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth, efallai bydd angen i wasanaethau ddod i ben, lleihau neu godi ffioedd mwy lle bo'n briodol dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Bydd hyn yn effeithio ar wasanaethau yn ôl disgrisiwn a gorfodol. Nid yw dull ein cyllideb ynglŷn ag ailddatblygu gwasanaethau yn unig mwyach – mae ein gwasanaethau yn parhau i gael eu hailddatblygu, mae'n ymwneud ag ailflaenoriaethu gwasanaethau i sicrhau bod gwasanaethau blaenoriaeth a hanfodol yn gynaliadwy ac yn wydn.
- d) **Gwneud arbedion effeithlonrwydd yn y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau:** Mae'r cwmpas ar gyfer effeithlonrwydd gwirioneddol yn gyfyngedig iawn, o wybod bod arbedion y deng mlynedd diwethaf wedi bod yn effeithlonrwydd. Serch hynny, byddwn o hyd yn gweithio'n galed i nodi a darparu mwy.
- e) **Cydweithio gyda phartneriaid a chymunedau:** Mewn meysydd ble mae gwasanaethau mewn perygl neu mae cyfleoedd i wella darpariaeth, mae angen rhoi hysbysiad buan fel y gellir gwneud gwaith gyda phartneriaid, awdurdodau lleol a chymunedau lleol i weld pa ddarpariaeth amgen fydd ar gael o bosibl..

9.3 Mae Prif Swyddogion yn adolygu eu gwasanaethau yn barhaus i nodi meysydd gwasanaeth y gellir eu gostwng neu eu torri, neu eu darparu'n fwy effeithiol. Nid oes toriadau i'r gyllideb wedi'u cynnig fel rhan o gyllideb 2022/23, er bod lefel o effeithlonrwydd gwasanaeth o £300,000 wedi'i gynnwys, ac yn cael ei ystyried yn ddanfonadwy. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn nodi y bydd angen toriadau i'r gyllideb yn y dyfodol.

## 10 Cyfalaf

10.1 Er gwaethaf yr heriau a'r cyfyngiadau ariannol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu mae'n parhau i ymrwymo i fuddsoddi yn y dyfodol. Mae cynlluniau buddsoddi cyfalaf y Cyngor wedi eu cynnwys yn y rhaglen

gyfalaf, gyda'r rhaglen ddiweddaraf a gymeradwy-wyd yn cynnwys y cyfnod rhwng blwyddyn ariannol 2021/22 a 2024/25. Mae'r defnydd effeithiol o adnoddau cyfalaf, gan gynnwys rheoli asedau, yn hanfodol i'r Cyngor gyflawni ei amcanion strategol hirdymor a chanolig.

- 10.2 Bydd y gyllideb refeniw yn cynnwys goblygiadau o ran unrhyw benderfyniad buddsoddi cyfalaf. Mae costau refeniw dros gyfnod pob prosiect cyfalaf arfaethedig yn cael eu hystyried pan mae'r prosiect yn cael ei ddatblygu i sicrhau y gellir ymgorffori effaith o fewn cynlluniau ariannol y Cyngor a dangos bod y buddsoddiad cyfalaf yn fforddiadwy.
- 10.3 Mae Strategaeth Gyfalaf y Cyngor wedi'i hamlinellu yn Atodiad 4.

## **11 Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn y Cyngor**

- 11.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal cronfeydd wrth gefn digonol i ddiwallu anghenion y sefydliad. Mae Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor yn nodi sut y bydd y Cyngor yn penderfynu ac yn adolygu lefelau'r cronfeydd wrth gefn. Mae Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor wedi'i hamlinellu yn yr Atodiad canlynol.

## STRATEGAETH CRONFEYDD WRTH GEFN 2022/23

### Cefndir

1. Cydnabyddir yr angen am arian wrth gefn mewn statud. Mae Adrannau 32 a 43 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn gofyn bod awdurdodau lleol yn rhoi sylw i'r lefel angenrheidiol o arian wrth gefn er mwyn cwrdd â'r gwariant a amcangyfrifir wrth gyfrifo gofyn y gyllideb.
2. Mae mesurau diogelu eraill ar waith er mwyn helpu i rwystro awdurdodau lleol rhag ymrwymo eu hunain yn ormodol yn ariannol. Mae hyn yn cynnwys:
  - Gofyniad cyllideb gytbwys (Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 – adran 32 a 43).
  - Dyletswydd y Prif Swyddog Cyllid a TGCh yw adrodd ynglŷn â chadernid amcangyfrifon ac a yw'r cronfeydd wrth gefn yn ddigon (Deddf Llywodraeth Leol 2003 – adran 25) pan fo'r Cyngor yn ystyried gofyniad y gyllideb.
  - Mae gofyniad deddfwriaethol y Cyngor i wneud trefniadau ar gyfer gweinyddiaeth bwrpasol eu materion ariannol a bod y Prif Swyddog Cyllid a TGCh yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny (adran 151 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992).
  - Gofynion Cod Darbodus Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth – mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh roi ystyriaeth lawn wrth wneud argymhellion am Raglen Gyfalaf y Cyngor. Mae ystyriaeth o'r fath yn cynnwys lefel ymrwymadau refeniw hirdymor. Wrth ystyried fforddiadwyedd cynlluniau cyfalaf y Cyngor, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh ystyried yr holl adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor, a amcangyfrifir ar gyfer y dyfodol, ynghyd â chrynswth ei gynlluniau cyfalaf a rhagolygon refeniw ar gyfer y flwyddyn i ddod a'r ddwy flynedd ddilynol. Mae angen rhagolygon refeniw tair blynedd ar draws y sector cyhoeddus ac mae hyn yn cael ei gyflawni drwy'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC).
  - Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried pa un a yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau digonol i sicrhau bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn gadarn.
3. Mae'r gofynion hyn wedi eu cadarnhau yn adran 114 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh roi gwybod os bydd yna wariant anghyfreithlon neu gyllideb anghytbwys. Byddai hyn yn cynnwys sefyllfaoedd ble mae cronfeydd wrth gefn wedi dod yn beryglus o brin a rhagwelir na fydd gan y Cyngor yr adnoddau ar gyfer gwariant mewn blwyddyn ariannol benodol.

### Hinsawdd Ariannol Bresennol

4. Mae'r pwysau ar gyllid cyhoeddus ar hyn o bryd ac ar gyfer y tymor canolig yn ddifrifol. Felly, mae'r gallu i gadw cronfeydd wrth gefn ar gyfer

digwyddiadau ac amgylchiadau annisgwyl nid yn unig yn dod yn anodd ond yn rhywbeth sydd angen ei ystyried yn ofalus.

- Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn nodi risgiau o ran cyflawni'r arbedion gofynnol i sicrhau cyllidebau cytbwys yn y dyfodol. Yn benodol bydd gweithio gyda gostyngiadau pellach mewn cyllid grant a cheisio cadw codiadau yn nhreth y cyngor ar lefel resymol yn gweld yr angen i gronfeydd wrth gefn gael eu rheoli'n effeithiol.

### **Mathau o Gronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio**

- Wrth adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a pharatoi cyllideb flynyddol y Cyngor, mae'r Cyngor angen ystyried sefydlu a chynnal cronfeydd wrth gefn gydag adnoddau. Mae'r Cyngor yn cadw arian wrth gefn i ddiogelu yn erbyn risg, sicrhau bod cynlluniau wrth gefn ar waith ac i gefnogi buddsoddiad mewn prosiectau yn y dyfodol sy'n fuddiol i'r Fwrdeistref Sirol. Mae'r Cyngor yn rheoli risg drwy asesu effeithiau posibl digwyddiadau'r dyfodol, yn seiliedig ar y tebygolrwydd y byddant yn digwydd a difrifoldeb unrhyw effaith. Yna mae camau lliniaru yn cael eu nodi i leihau'r perygl a bod cynlluniau priodol yn cael eu rhoi ar waith.
- Ar 31 Mawrth 2021, roedd gan y Cyngor y cronfeydd canlynol o arian wrth gefn i'w defnyddio:

	<b>31/03/17</b> <b>£'000</b>	<b>31/03/18</b> <b>£'000</b>	<b>31/03/19</b> <b>£'000</b>	<b>31/03/20</b> <b>£'000</b>	<b>31/03/21</b> <b>£'000</b>
Balans Cronfa'r Cyngor	7,018	7,018	7,018	7,027	8,433
Balansau Cyfrif Refeniw Tai	6,001	5,030	5,024	5,030	10,029
Cronfeydd wrth Gefn wedi'u Clustnodi	17,857	18,836	21,926	19,178	33,484
Derbyniadau Cyfalaf	11,935	13,082	17,446	20,475	21,476
Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso	744	569	2,586	5,292	7,037
<b>Cyfanswm</b>	<b>43,555</b>	<b>44,535</b>	<b>54,000</b>	<b>57,002</b>	<b>80,459</b>

Mae'r cynnydd mewn cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2021 yn bennaf oherwydd Covid-19 a derbyniwyd cefnogaeth grant arall yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, un ai i ddisodli gwariant a wariwyd eisoes o fewn y flwyddyn neu i'w gario drosodd i 2021/22.

### **Balans Cronfa'r Cyngor**

- Diben y gronfa wrth gefn yma yw darparu ar gyfer unrhyw wariant annisgwyl nad oes modd ei reoli yn defnyddio'r cyllidebau presennol. Byddai gwariant o'r fath yn wariant untro o ganlyniad i ddigwyddiad anghyffredin. Dylid gosod cronfa wrth gefn gyffredinol ar lefel synhwyrol ond nid yn ormodol felly gan y gall dal lefelau uchel o arian wrth gefn effeithio ar adnoddau a pherfformiad. Yn y gorffennol, mae wedi'i gynnal ar lefel o amgylch 5% o

gyllideb net y Cyngor (heb gynnwys ysgolion). Mae Atodiad 1 yn manylu ar yr elfennau sy'n ffurfio balans y Gronfa Gyffredinol a lefelau'r risgiau sydd ynghlwm â phob un o'r elfennau hyn. Mae'r rhain yn fynegiannol ac mae'n bosibl na fyddant yn gyflawn wrth i risgiau newydd godi.

	<b>2015/16</b> <b>£'000</b>	<b>2016/17</b> <b>£'000</b>	<b>2017/18</b> <b>£'000</b>	<b>2018/19</b> <b>£'000</b>	<b>2019/20</b> <b>£'000</b>	<b>2020/21</b> <b>£'000</b>	<b>2021/22</b> <b>£'000</b>	<b>2022/23</b> <b>£'000</b>
Cyllideb net (ac eithrio ysgolion)	146,144	45,802	145,675	152,231	153,357	161,263	168,239	185,261
Balans Cronfa'r Cyngor a Amcangyfrifir fel % o'r gyllideb net	4.80%	4.81%	4.82%	4.61%	4.58%	4.35%	5.01%	4.55%

### **Balansau Cyfrif Refeniw Tai**

9. Mae hyn yn cynrychioli cronfeydd wedi'u clustnodi ar gyfer y defnydd ar stoc dai y Cyngor ei hun. Mae Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai wedi'i ddatblygu ar sail bod lleiafrif balans o £5 miliwn yn cael ei gadw i liniaru yn erbyn risg.

### **Cronfeydd wrth Gefn wedi'u Clustnodi**

10. Yn wahanol i falans Cronfa'r Cyngor, roedd cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd wedi eu nodi ar gyfer meysydd gwariant penodol ble mae yna gostau a ragwelir y gellir ond eu hamcangyfrif. Mae gwariant sy'n ymwneud â chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd wedi ymwneud yn benodol â diben y gronfa wrth gefn. Mae Atodiad 2 yn ddarn o Ddatganiad Cyfrifon 2020/21 y Cyngor ac sy'n rhestru cronfeydd wrth gefn y Cyngor a glustnodwyd.

### **Derbyniadau Cyfalaf**

11. Mae'r gronfa wrth gefn hon yn dal elw o werthu tir neu asedau eraill, sydd wedi'u rhwystro drwy statud rhag cael eu defnyddio ar wahân i'w defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf newydd neu i gael eu neilltuo i ad-dalu dyled. Mae'r adroddiad diweddaraf ar y Rhaglen Gyfalaf yn amlygu y bydd angen oddeutu £17.6 miliwn o gyllid derbyniadau cyfalaf o 2021/22 ymlaen.

### **Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwysu**

12. Mae hwn yn dal y grantiau a'r cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at brosiectau cyfalaf y mae'r Cyngor wedi cwrdd â'u hamodau ond y mae eto angen cwrdd â'r gwariant cyfalaf.



## **Gweithdrefn Defnyddio Cronfeydd wrth Gefn**

13. Mae'n rhaid derbyn cymeradwyaeth y Bwrdd Gweithredol a/neu'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh cyn sefydlu unrhyw gronfa wrth gefn a dylai bod rheswm penodol a phriodol.
14. Mae system gyllido arian cyfyngedig y Cyngor yn cynnwys darpariaeth ar gyfer "trefniadau dwyn ymlaen" ar ddiwedd y flwyddyn. Yn amodol ar gymeradwyaeth aelodau'r Bwrdd Gweithredol, gall gwasanaeth neu adran sy'n tanwario eu cyllideb arian cyfyngedig, fel arfer, ddwyn y tanwariant ymlaen, hyd at uchafswm o 5% o gyllideb arian cyfyngedig yr adran, i'r flwyddyn ganlynol.
15. Unwaith yn unig y gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn ac felly ni ddylid eu cynnal i ariannu gwariant sy'n parhau.
16. Fel rhan o'r broses gyllid flynyddol, bydd y Prif Swyddog Cyllid a TGCh yn ystyried ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor p'un ai a oes angen cynnwys cyfraniad tuag at falans y gronfa gyffredinol neu unrhyw gronfa wrth gefn a glustnodwyd.

## **Monitro**

17. Rhoddir gwybod i aelodau am ddefnydd cronfeydd wrth gefn pob dau fis fel rhan o weithdrefnau Monitro Cyllid y Cyngor.
18. Yn ystod yr hydref ac fel rhan o Weithdy Cyllideb i'r holl Aelodau, adolygir cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn ateb gofynion y Cyngor ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Fel rhan o'r adolygiad, mae aelodau'n ystyried y canlynol ar gyfer pob cronfa wrth gefn a glustnodwyd:
  - y rheswm dros gael / diben y gronfa wrth gefn
  - sut a pha bryd y gellir defnyddio'r gronfa wrth gefn
  - ei pherthnasedd ac a yw'n ddigonol
19. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cymeradwyo unrhyw drosglwyddiadau i neu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

## **Dadansoddi Risg**

20. Unrhyw argymhellion sy'n newid y defnydd a drefnwyd o arian wrth gefn a adroddwyd o fewn adroddiad Cyllideb Refeniw blynyddol yn cymryd i ystyriaeth anghenion y gwasanaeth yn erbyn yr angen i gynnal lefelau darbodus o gronfeydd wrth gefn. Mae yna risgiau sylweddol sy'n effeithio ar lefel cronfeydd wrth gefn i gael ei gynnal a'r mathau o risgiau sydd wedi eu hystyried, ond hefyd i gael eu cadw dan adolygiad yw:
  - Bwlch mewn cyllid yn y dyfodol – y risg o ganlyniad i amodau economaidd, sy'n debygol o fod yn ostyngiadau termau real pellach mewn lefelau grant cynnal refeniw a gostyngiadau mewn grantiau penodol.

- Gostyngiad mewn derbyniadau cyfalaf ac incwm cysylltiedig â chynllunio.
- Galw cynyddol ar wasanaethau sy'n gallu arwain at orwariant adrannol.
- Incwm llai na'r disgwyl
- Colledion heb eu hyswirio o ddigwyddiadau anodd i'w rhagweld – er enghraifft, stormydd, llifogydd, terfysgaeth. Mae cymorth o dan y Cynllun Cymorth Ariannol Brys yn daladwy pan fydd gwariant yn fwy na'r trothwy o 0.2% yn unig o ofyniad cyllideb y Cyngor a bydd ond yn cyllido 85% o wariant brys uwchlaw'r trothwy.
- Dyledion cyfreithiol heb eu hyswirio – er enghraifft, hawliadau anaf personol.
- Anallu i ddarparu arbedion wedi'u bwriadu.
- Ailstrwythuro Sefydliadol – er enghraifft, dileu swyddi a chostau pensiwn.
- Costau contract hirdymor – er enghraifft, rheoli gwastraff.
- Atgyweirio neu ddisodli asedau – er enghraifft, adeiladau.

## Casgliad

21. Mae lefel gyfredol o gronfeydd wrth gefn y Cyngor yn gymedrol o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi data awdurdodau lleol ar lefelau cronfeydd wrth gefn a gellir eu gweld ar y ddolen gyswllt ganlynol:  
  
<https://llyw.cymru/cronfeydd-wrth-gefn-yr-awdurdodau-lleol-ar-2019-i-2020>
22. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cronfeydd wrth gefn y Cyngor a glustnodwyd wedi cynyddu wrth i'r Cyngor fynd trwy broses o newid lle mae tanwario'r gyllideb wedi bod yn y cyfnod hwnnw. Mae rheoli'r gyllideb yn llymach yn golygu nad yw tanwario ar y lefel yma'n debygol ar gyfer y tymor canolig ac mae'r perygl o orwario yn erbyn y gyllideb yn dod yn fwy o risg i'r Cyngor.
23. Gall fod newidiadau yn ystod y flwyddyn yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a fydd yn effeithio ar y strategaeth hon. Bydd newidiadau o'r fath yn cael eu monitro gan y Prif Swyddog Cyllid a TGCh a'u hadrodd i'r Uwch Dîm Arwain ac Aelodau.

ATODIAD 1

Risgiau Allweddol	Effaith	Tebygolrwydd	Rheoli'r Risg	Lleiafs wm £mil	Mwyafs wm £mil	Angenrh eidol £mil
Digwyddiad mawr a/neu hawliadau – gwariant heb ei gyllidebu	Disgwylir i'r Cyngor ariannu gwariant hyd at 0.2% o ofyniad cyllideb a 15% o wariant cymwys dros ac uwchben y trothwy 0.2%.	Un digwyddiad hyd at 0.2% o'r gyllideb net – Isel i Sylweddol Un digwyddiad yn creu cyfanswm dros 0.2% o'r gyllideb net – Isel lawn	Cronfeydd wrth gefn i reoli risgiau ariannol a nodwyd neu ddefnyddio balansau cyffredinol os oes angen.	567	1,333	1,333
Methiant Cyd-barti	Gall partion fethu talu symiau yn ôl i'r Cyngor a thrwy hynny effeithio ar gyllideb refeniw	Sylweddol	Yn unol â'r Strategaeth TM, ni wneir blaendaliadau ond gyda sefydliadau gyda statws credyd A- ar y lleiaf a dim mwy na £3m i bob sefydliad a dim yn hwy na 13 mis.	1,000	3,000	3,000
Methu cyflwyno toriadau cyllideb a drefnwyd, galw cynyddol am wasanaethau a'r potensial o ostyngiad mewn incwm	Gorwario yn ystod y flwyddyn	Uchel  Sylweddol	Fel rhan o broses cyllideb flynyddol, cynnal asesiad risg o gyflawni cyllideb. Mae'r canlynol wedi eu nodi fel risg sylweddol:  a) Nid yw lefelau incwm yn adfer i lefelau cyn y pandemig b) Galw cynyddol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal	500  1,000	1,000  2,000	1,000  2,000
			<b>CYFANSWM</b>	<b>3,067</b>	<b>7,333</b>	<b>7,333</b>

Mae'r nodyn hwn yn nodi'r nifer a roddwyd wrth gefn o falansau'r Cronfa Gyffredinol mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i ddarparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwariant yn y dyfodol, a'r cyfansymiau o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i fodloni'r Gronfa Gyffredinol yn 2020/21.

	2019/20			2020/21			Balans ar 31/03/2021 £'000
	Balans ar 01/04/2019 £'000	Trosglwyddiadau		Balans ar 31/03/2020 £'000	Trosglwyddiadau		
		Allan £'000	I mewn £'000		Allan £'000	I mewn £'000	
Cronfa Gyffredinol:							
Balansau ysgolion	1,821	(649)	941	2,113	(16)	7,558	9,655
Cronfa wrth gefn Gwasanaethau	1,361	(586)	62	837	0	1,227	2,064
Cronfa wrth gefn Yswiriant	2,889	(198)	0	2,691	0	476	3,167
Cronfa wrth gefn Atebolrwyddau Cyfreithiol	1,054	(124)	0	930	0	96	1,026
Cronfa wrth gefn Cynnal a Chadw'r gaeaf	350	0	0	350	0	0	350
Ymdeoliad Gwirfoddol Cynnar	94	(94)	0	0	0	0	0
Cronfa wrth gefn YGC Trawsnewidiol	1,349	0	0	1,349	0	0	1,349
Cronfa wrth gefn Ailsiapio Gwasanaethau	754	(182)	0	572	0	0	572
Cronfa wrth gefn Buddsoddi i Arbed	470	0	75	545	(82)	0	463
Cronfa Gyfalaf wrth gefn	2,726	(439)	0	2,287	0	0	2,287
Atgyweirio a Chynnal a Chadw	10	0	0	10	0	0	10
Cronfa wrth gefn ITeC	154	0	0	154	0	0	154
Datblygu TG	42	0	0	42	0	0	42
Mynediad i Gwsmeriaid	15	0	0	15	0	0	15
Cynllun Datblygu Lleol	174	(174)	60	60	(10)	0	50
Cronfa wrth gefn Allyriadau Carbon	524	0	67	591	(46)	5	550
Disodli Peiriannau Amlsgo	23	0	0	23	0	1	24
Cronfa wrth gefn Adran 278	464	(284)	0	180	0	231	411
Cronfa wrth gefn Adnoddau Ariannol	3,138	(5)	0	3,133	(7)	0	3,126
Amrywiol	50	(5)	4	49	0	0	49
Bwrdd Uchelgais Economaidd GC	0	0	0	0	0	92	92
Cronfeydd wrth gefn Grantiau	4,464	(2,456)	1,239	3,247	(526)	5,307	8,028
<b>Cyfanswm</b>	<b>21,926</b>	<b>(5,196)</b>	<b>2,448</b>	<b>19,178</b>	<b>(687)</b>	<b>14,993</b>	<b>33,484</b>

Cronfeydd wrth gefn Gwasanaethau - yn cynrychioli tanwariant gwasanaethau fel rhan o drefniadau cario drosodd y Cyngor ar gyfer ei ddefnyddio mewn blynyddoedd dilynol.

Cronfa wrth gefn Yswiriant - mae'r gronfa yn cael ei chadw i ariannu unrhyw atebolrwyddau yn y dyfodol megis MMI (gweler nodiadau 29 a 30 Nodiadau i'r Cyfrifon) a hawliadau sy'n mynd tu hwnt i'r gyllideb.

Cronfa wrth gefn Atebolrwyddau Cyfreithiol - swm a roddwyd o'r neilltu i ddarparu ar gyfer unrhyw atebolrwyddau cyfreithiol yn y dyfodol. Cronfa wrth gefn Cynnal a Chadw'r gaeaf - swm a roddwyd o'r neilltu i dalu am gostau yn sgil amodau tywydd garw nas ragwelwyd.

Cronfa wrth gefn Ymdeoliad Gwirfoddol Cynnar ac Ymdeoliad Gwirfoddol Cynnal Trawsnewidiol - i ariannu costau ymdeoliadau cynnar/costau dileu swyddi yn dilyn ailstrwythuro gwasanaethau.

Cronfa wrth gefn Ailsiapio Gwasanaethau - swm a roddwyd o'r neilltu i gynorthwyo'r broses drawsnewid i wireddu arbedion yn y dyfodol ar gyfer y Cyngor.

Cronfa wrth gefn Buddsoddi i Arbed - darpariaeth ar gyfer buddsoddi mewn cynlluniau amrywiol i wireddu arbedion ariannol parhaol.

Cronfa Gyfalaf wrth gefn - yn cynrychioli adnoddau wedi'u hymrwymo eisoes i ariannu rhan o Raglen Gyfalaf nad yw'n Gyfrif Refeniw Tai pum mlynedd y Cyngor.

Cronfa wrth gefn Cynnal a Chadw - i ymateb i batrymau gwariant anwastad yn y dyfodol.

Cronfa wrth gefn ITeC - i dalu am gostau adfeiliad sy'n gysylltiedig â symud allan o

Adeilad ITEC ar Ystâd Ddiwydiannol Whitegate. Datblygu TG a Mynediad

Cwsmeriaid - i ariannu gwelliannau TG yn y dyfodol a datblygiad Gwasanaeth

Hunanwasanaeth TGCh. Cronfa wrth gefn Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) - i ariannu costau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu'r CDLI.

Cronfa wrth gefn Allyriadau Carbon - i ariannu'r rhaglen waith cynllun

gostwng carbon yn rhannol i leihau allyriadau carbon. Cronfa wrth gefn

Disodli Peiriannau Amlosgi - i ariannu costau disodli peiriannau yn rhannol.

Cronfa wrth gefn Adran 278 - yn cynrychioli incwm gan contractwyr heb amodau wedi'u hatodi ond wedi cael eu rhoi o'u neilltu i ariannu prosiectau isadeiledd amrywiol.

Cronfa Adnoddau Ariannol - mae'r gronfa wedi cael ei chreu o ganlyniad i gynnydd dros dro a nodwyd yn y CI a'r ES

yn dilyn newid yng nghyfrifiad yn swm cario benthyciadau diwygiedig y Cyngor ar 1 Ebrill 2018, fel sy'n ofynnol gan IFRS 9. Bydd y gronfa wrth gefn yn cael ei defnyddio i niwtraleiddio effaith ffioedd llog uwch i'r CI ac ES dros weddill oes y benthyciadau.

Amrywiol - i fodloni ystod o ymrwymadau amgylcheddol, gan gynnwys rhoddion amlosgi.

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru - yn cynrychioli cyfran y Cyngor o gronfa wrth gefn y Bwrdd.

Cronfeydd wrth gefn Grantiau - cynrychioli incwm o grantiau'r Llywodraeth a dderbyniwyd heb amodau wedi'u hatodi ond sydd wedi'u gosod o'r neilltu i'w defnyddio yn narpariaeth gwasanaethau penodol.